



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Blynyddol 2015-16

Cynnwys

| | | |
|----|---|---------|
| 1. | Cyflwyniad | 2 – 3 |
| 2. | Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol | 3 - 5 |
| 3. | Defnyddio'r wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru | 5 – 6 |
| 4. | Beth a Gyflawnwyd | 6 – 19 |
| 5. | Hyfforddiant | 20 |
| 6. | Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb | 20 – 22 |
| 7. | Gwybodaeth Cyflogaeth | 22 – 25 |

1. Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno dyletswydd gyffredinol newydd ar y sector cyhoeddus. Mae'n ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr newydd o nodweddion sydd i'w diogelu yn lle amryw agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hynny i'w diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- Oedran
- Newid rhyw
- Rhyw
- Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl
- Anableddau
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Tueddfryd rhywiol
- Crefydd neu gred

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafiaeth.

Dyletswyddau Penodol

Yn ychwanegol i'r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymdrin â:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth

- Gwahaniaethau tâl
- Hyfforddiant staff
- Pwrcasu
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Fe ddaeth y ddyletswydd gyffredinol yn ogystal â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi gwybod am y cynnydd a wnaeth yr Awdurdod o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi data cyfrifiad 2011 ar gyfer trigolion y Parc Cenedlaethol ar ei wefan. Mae'r data ar gyfer y boblogaeth amcangyfrifedig o 25,702 wedi cael ei rannu i amrywiol gategoriâu gan gynnwys proffiliau wardiau, gweithgaredd economaidd, statws tai, statws teuluol a sgiliau iaith Gymraeg. Mae data'r cyfrifiad yn darparu darlun o fywyd o fewn cymunedau unigol yn y Parc yn ogystal â darparu gwybodaeth leol werthfawr. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd data'r cyfrifiad yn gallu darparu gwybodaeth ar bob nodwedd a ddiogelir.

Gwybodaeth ac Ymglymiad

Bob blwyddyn treulir rhwng 6 a 10 miliwn o ddyddiau ymwelwyr yn Eryri. Mae arolwg ymwelwyr blynyddol yn cael ei gynnal drwy wefan yr awdurdod sy'n darparu gwybodaeth werthfawr, nid yn unig ar ba fath o bobl sy'n ymweld ag Eryri, ond am eu profiadau tra maen nhw yma.

Yn ogystal â'r wybodaeth hon, mae holiaduron lleol llai eu maint yn cael eu cwblhau gan wardeiniaid ac mae data ymwelwyr yn cael ei ddefnyddio o wahanol ffynonellau megis Visit Britain ac ati, er mwyn galluogi'r awdurdod i gael darlun ehangach o'r bobl sy'n ymweld â'r ardal.

Yn ogystal â chael gwybodaeth uniongyrchol drwy holiaduron ac arolygon, mae'r Awdurdod yn parhau i ymwneud yn rheolaidd ag ystod eang o randdeiliaid drwy Fforwm Cydraddoldeb yr Awdurdod, Grwpiau Mynediad y Gogledd a'r De, cynghorau tref a chymuned, asiantau cynllunio, gweithgareddau awyr agored a grwpiau hamdden, tîrfeddianwyr ac ati.

Mae ymgynghoriadau cyhoeddus penodol hefyd yn digwydd wrth ddatblygu strategaethau a pholisïau megis Canllawiau Cynllunio Atodol ac ati.

Wedi dadansoddi'r wybodaeth a oedd ar gael yn 2011 ynghyd â chynnal ymarferiad ymgynghorol mewn partneriaeth â phob un o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd

Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Ambiwlans Cymru o dan faner gyfunol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, datblygwyd 6 o amcanion lefel uchel, a'r rhain fydd y 6 amcan mabwysiedig ar gyfer Gogledd Cymru.

I gyd-fynd â phob amcan mae cyfres o feysydd gweithredu. Mae'r meysydd gweithredu yn diffinio'r 6 amcan ac yn paratoi'r sylfaen i bob partner allu cynllunio ei gyfraniad tuag at gyflawni'r amcanion hynny.

Ar yr 2il o Dachwedd 2015, cynhaliodd y Rhwydwaith (sydd bellach wedi tyfu i 14 o sefydliadau o'r sector cyhoeddus) Ddigwyddiad Ymgysylltu arall gyda Rhanddeiliaid o Ogledd Cymru yng Nghanolfan Fusnes Conwy yng Nghyffordd Llandudno. Nod y digwyddiad oedd adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb cyfredol yn unol ag anghenion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus. Roedd yr Amcanion gwreiddiol a ddatblygwyd yn 2011/12 yn seiliedig i raddau helaeth ar dystiolaeth o anghydraddoldeb a gyhoeddwyd yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "Pa mor Deg yw Cymru?". Roedd ein tystiolaeth anecdotaidd a gwybodaeth o adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi yn dangos bod y rhan fwyaf, os nad pob un o'r Amcanion hyn yn dal i fod yn berthnasol heddiw. Felly pwrpas y digwyddiad oedd ymgynghori ar berthnasedd parhaus yr Amcanion hyn ac i ganfod pa newidiadau, os o gwbl oedd angen eu gwneud iddynt.

Roedd dros 60 o fynychwyr yn bresennol ar y diwrnod, yn cynrychioli 29 o sefydliadau a oedd yn cynnwys grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol, grwpiau elusennol, sefydliadau addysgol a chyrrff ac ariennir yn gyhoeddus sy'n gweithio gyda, neu'n cynnwys grwpiau amrywiol o bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Cytunodd Kate Bennett, y Cyfarwyddwr Cenedlaethol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i fod yn siaradwraig gwadd, a chychwynnodd y digwyddiad gyda chrynodeb o'r heriau allweddol a gafodd eu hadnabod drwy ymchwil y Comisiwn, a gafodd ei wneud er mwyn diweddarau'r adroddiadau "Pa mor deg yw Cymru / Prydain?"

Cafodd hyn ei ddilyn gyda thrafodaethau wedi'u hwyluso o amgylch y bwrdd gyda mynychwyr yn cyflwyno sylwadau ac adborth ar berthnasedd parhaus yr Amcanion Cydraddoldeb, a pa gamau gweithredu ychwanegol sydd eu hangen o dan bob un i alluogi mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb.

Ar ôl y digwyddiad, cyhoeddwyd adroddiad a gafodd ei ddisbarthu i bawb a oedd yn bresennol, ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan pob Aelod.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad adnabuwyd fod yr Amcanion Cydraddoldeb cyfredol, gyda mân newidiadau iddynt, yn parhau i fod yn berthnasol iawn. Adnabuwyd bod angen ymrwymiad hir dymor i'r Amcanion hyn, er mwyn cael unrhyw gyfle iddynt fedru cael effaith sylweddol ar leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau; ac er bod y gwaith yn parhau ar y manau gweithredu sy'n eistedd o dan yr amcanion hyn, mae llwyddiant go iawn yn anodd iawn i'w fesur a'i arddangos ar hyn o bryd.

3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru

Er bod pob partner wedi ymrwymo i'r 6 amcan lefel uchaf, mae'r Rhwydwaith wedi cytuno y dylai pawb gael yr hyblygrwydd i ddewis cyfrannu tuag at y meysydd gweithredu sy'n faes blaenoriaeth iddynt hwy yn unig ac sy'n seiliedig ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Y 6 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru a fabwysiadwyd yw:

1. Lleihau anghydraddoldebau mewn **lechyd**
2. Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn **Addysg** er mwyn cyflawni potensial yr unigolyn
3. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**
4. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol
5. Lleihau anghydraddoldebau o ran **Cynrychiolaeth a Llais**
6. Lleihau anghydraddoldebau o ran **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Allan o'r 6 Amcanion Cydraddoldeb sydd wedi'u nodi uchod, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r Amcanion Cydraddoldeb canlynol ynghyd â'r meysydd gweithredu sydd ynghlwm iddynt:

- A1. Lleihau anghydraddoldebau mewn **lechyd**

Man Gweithredu: Mae'r nifer o bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffordd iachach o fyw yn cynyddu

- A3. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**

Man Gweithredu: Adnabyddir ac eir i'r afael ag anghydraddoldebau mewn recriwtio, dargadwad (cadw staff), hyfforddiant a phrosesau dyrchafu

Man Gweithredu: Bydd unrhyw fylchau mewn tâl rhwng nodweddion a ddiogelir yn cael eu hadnabod ac eir i'r afael â hwy

- A4. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol

Man Gweithredu: Bydd adrodd ar droseddau casineb ac aflonyddwch yn cynyddu a bydd camau yn cael eu cymryd i leihau'r digwyddiadau o droseddau casineb ac aflonyddwch

- A5. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cynrychiolaeth a Llais**

Man Gweithredu: Bydd cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau a wasanaethir

A6. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Man Gweithredu: Bydd mynediad at wybodaeth a chyfathrebu ynghyd â phrofiad y cwsmer yn gwella

Man Gweithredu: Bydd mynediad corfforol at wasanaethau, trafnidiaeth, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored yn gwella

4. Beth a Gyflawnwyd

Amcan Un: Lleihau anghydraddoldebau mewn **lechyd**

Man Gweithredu: Mae'r nifer o bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffordd iachach o fyw yn cynyddu

| Prosiect / Menter / Gweithred | Amserlen | Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|--|-----------------|--|-----------------------------------|------------------------------|
| Daw penodiad y Swyddog Prosiect Mosaic i ben ym mis Mawrth 2015. Gwerthuso canlyniadau'r prosiect a sicrhau cysylltiad parhaus â'r Hyrwyddwyr Cymunedol a sicrhau y rhoddir cymorth digonol iddynt barhau yn eu rôl. | Mawrth 2016 | Trwy ddenu mwy o bobl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig i gael mynediad at, a mwynhau, cefn gwlad, fe fydd hyn yn arwain at fuddion iechyd. Mae'r ymchwil yn nodi bod pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o ymgymryd â'r holl ymarfer corff a argymhellir. | Hil | Swyddog y Gymuned |

Cynnydd / Diweddariad:

Mae adroddiad monitro Mosaic wedi cael ei gwblhau ac mae gwybodaeth am y cynllun i fyny ar y wefan. Mae gwybodaeth berthnasol yn ymwneud a datblygiadau o fewn yr Awdurdod yn cael eu gyrru trwy e-bost i'r pencampwyr.

Mae un pencampwr wedi cael budd allan o grant CAE i ddatblygu cynllun Ystyriaeth Ofalgar ac Ysgrifennu Creadigol - trwy gydweithio gyda staff yr Awdurdod. Mae pencampwr arall yn gwirfoddoli gyda'r Awdurdod ar y rhaglen gerdded i bobl gyda nam ar y golwg.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Amserlen | Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|--|---------------------------|---|-------------------------------|--|
| Gwella mynediad i gefn gwlad drwy barhau â'r rhaglen o deithiau cerdded misol ar gyfer pobl â nam ar eu golwg. Annog mwy o wirfoddolwyr o bob oed i gymryd rhan. | Mawrth 2016 | Mae'r dystiolaeth yn awgrymu po fwyaf o waith integreiddio sy'n digwydd, y fwyaf o rwystrau sy'n cael eu goresgyn, a bod pobl yn fwy tebygol o dderbyn ei gilydd. | Anabledd Pawb | Swyddog y Gymuned |
| Cynnydd / Diweddariad: Mae'r rhaglen teithiau tywys yn parhau i gael ei gynnal yn fisol. Mae'r nifer o wirfoddolwyr ar y rhaglen wedi cynyddu. | | | | |
| Gwella mynediad i gefn gwlad drwy barhau i drefnu teithiau cerdded misol ar gyfer y rhai sy'n mynd i Hafal - canolfan galw i mewn sy'n darparu cefnogaeth yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl difrifol. | Mawrth 2016 | Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall awyr iach ac ymarfer corff gael effaith gadarnhaol ar bobl â phroblemau iechyd meddwl penodol. | Anabledd | Swyddog y Gymuned |
| Cynnydd / Diweddariad: Mae llai o deithiau wedi cael eu cynnal dros fisoedd y gaeaf eleni oherwydd newid yn staff Hafal. Fodd bynnag, mae'r rhaglen gerdded wedi ail gychwyn erbyn hyn. | | | | |
| Graddio llwybrau troed ar gyfer hygyrchedd - edrych ar yr arfer da a sefydlwyd gan brosiect Cyfoeth Naturiol Cymru a chynllun 'Miles Without Styles' LDNPA ar hyn. | Mawrth 2013 – Mawrth 2016 | Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i bobl ag anableddau corfforol a rhieni â phlant ifanc wneud dewisiadau gwybodus am addasrwydd gwahanol lwybrau iddynt. | Oed Anabledd | Swyddog Mynediad Swyddog Dehongli |

Cynnydd / Diweddariad:

Mae system raddio newydd wedi'i drafftio ac ar fin cael ei chadarnhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu sut yr ydym yn hyrwyddo llwybrau hygrych (a llwybrau eraill) cyn symud i hyrwyddo mwy o lwybrau.

Wedi gallu defnyddio'r Google Trekker i ddarparu lluniau ar gyfer Google maps o Lwybr y Fawddach – fe fyddwn yn defnyddio'r un dull i ddehongli pob un o'r llwybrau hygrych a hyrwyddir yn ystod 2016/2017.

| | | | | |
|--|-------------|--|------|---|
| Ar y cyd â'r ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru - datblygu Datganiad Cenhadaeth ynghyd â Gweithredoedd â Blaenoriaeth ar sut y gellir defnyddio'r Parciau Cenedlaethol orau i wella lechyd a Lles y gymuned. | Mawrth 2016 | Trwy ddatblygu a gwella gweithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn ffordd strwythuredig i gefnogi gwelliannau mewn iechyd cyhoeddus a lles cymdeithasol ymhellach drwy ryngweithio â'r Parc Cenedlaethol | Pawb | Uwch Swyddog Polisi Swyddog Cynladwyedd a Chymuned |
|--|-------------|--|------|---|

Cynnydd / Diweddariad:

Datganiad yn cael ei lansio yn ystod y Sioe Frenhinol mewn derbyniad arbennig. Grŵp lechyd a Lles mewnol yn cyfarfod pob deufis a grŵp 3 Pharc yn cyfarfod yn chwarterol. Cyfarfodydd rheolaidd gyda Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac lechyd Cyhoeddus Cymru.

| | | | | |
|--|-----------------------------------|--|----------|-------------------|
| Ar y cyd â'r ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru, cefnogi Bid Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol i'r Loteri ar gyfer prosiect olyniaeth Mosaic. | Gorffennaf 2015 – Gorffennaf 2018 | Petai'n llwyddiannus, mae'r prosiect newydd yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant y prosiect Mosaic presennol. Gan ddefnyddio'r un model o ddefnyddio Hyrwyddwyr Cymunedol ni fydd ond yn berthnasol i bobl dduon a lleiafrifoedd | Hil Pawb | Swyddog y Gymuned |
|--|-----------------------------------|--|----------|-------------------|

| | | | | |
|---|--|--|--|--|
| | | ethnig yn unig. Gan weithio mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf bydd yn hybu'r Parciau Cenedlaethol fel adnoddau i wella iechyd a lles pobl. | | |
| <u>Cynnydd / Diweddariad:</u> Mae'r bid ar gyfer cynllun fydd yn olyn Cynllun Mosaic (gwedd 1) newydd gael ei gyflwyno i'r loteri am y 3ydd tro. | | | | |

Amcan Dau: Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion

Man Gweithredu: Bwlch cyflawniad addysgol rhwng y gwahanol grwpiau yn gostwng

| Prosiect / Menter / Gweithred | Amserlen | Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|--|-----------------|---|-----------------------------------|------------------------------|
| Galluogi pob plentyn waeth beth yw ei anabledd / anghenion ychwanegol i allu mynychu cyrsiau dydd a / neu hamdden ym Mhlas Tan y Bwlch gyda'u grwpiau ysgol. Gwneir hyn drwy asesiadau risg cynhwysfawr sy'n cynnwys yr ysgol a'r rhieni a sefydlu cymorth lleol ynghylch gofynion iechyd pan fo angen e.e. meddygon teulu lleol, | Parhaus | Cael gwared ar y rhwystrau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu er mwyn iddynt gael dysgu am, profi a mwynhau pob agwedd ar y Parc Cenedlaethol. | Anabledd Oed | Swyddogion Addysg |

| | | | | |
|---|-----------|---|--------------|-----------------|
| ambiwylans awyr ac ati. | | | | |
| <p><u>Cynnydd / Diweddariad:</u> Aeth disgyblion o Ysgol Pendalar ar daith hanner diwrnod i Feddgelert.</p> <p>Mae'r Swyddogion Addysg yn parhau i weithio gydag ysgolion i sicrhau bod unrhyw ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol ddim yn dod ar draws unrhyw rwystrau rhag mynychu ac ar gyfer cymryd rhan lawn mewn unrhyw gyrsiau dydd neu breswyl ym Mhlas Tan y Bwlch. Mae eu hanghenion yn cael eu hasesu ac mae cymorth addas a mesuriadau liniaru risg yn cael eu gweithredu.</p> | | | | |
| Trefnu a hwyluso cwrs preswyl ar gyfer disgyblion Tŷ Meirion, i'w galluogi i brofi chwaraeon dŵr ac ati. Gwneir hyn drwy asesiadau risg cynhwysfawr a threfnir ymweliadau cymorthdaledig gyda phartneriaid. | Blynyddol | Cael gwared ar y rhwystrau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu er mwyn iddynt gael profi gweithgareddau amrywiol yn yr awyr agored. | Anabledd Oed | Pennaeth Busnes |
| <p><u>Cynnydd / Diweddariad:</u> Oherwydd diffyg lle digonol ar ddyddiau addas nid oeddem yn gallu cynnig yr elfen breswyl yn 2015. Fodd bynnag, rhoddwyd cymorth i Dŷ Meirion i drefnu diwrnod o weithgareddau a oedd yn cael ei arwain gan y Swyddog Addysg. Rydym yn parhau i gynnal y cysylltiad a byddwn yn parhau i weithio gyda Thŷ Meirion pan fyddwn yn gallu.</p> | | | | |

Amcan Tri:

Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**

Man Gweithredu:

Adnabyddir ac eir i'r afael ag anghydraddoldebau mewn recriwtio, dargadwad (cadw staff), hyfforddiant a phrosesau dyrchafu

Man Gweithredu:

Bydd unrhyw fylchau mewn tâl rhwng nodweddion a ddiogelir yn cael eu hadnabod ac eir i'r afael â hwy

| Prosiect / Menter / Gweithred | Amserlen | Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|-----------------|---|-------------------------------|--------------------------|
| Monitro cyfraddau o unigolion o grwpiau a dangynrychiolir sy'n ymgeisio am swyddi gwag. | Blynyddol | Bydd y data a gasglwyd yn hysbysu unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol, i alluogi aelodau o grwpiau a dangynrychiolir i ymgeisio a chael swyddi gyda'r Awdurdod. | Pawb | Pennaeth Personél |

Cynnydd / Diweddariad:

Mae data monitro a recriwtio ar gael o dan Adran 7 o'r adroddiad hwn.

| | | | | |
|---|-----------|--|------|-------------------|
| Asesu a monitro'r bwloch tâl rhyw yn flynyddol. | Blynyddol | Bydd y data a gasglwyd yn hysbysu unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol. | Rhyw | Pennaeth Personél |
|---|-----------|--|------|-------------------|

Cynnydd / Diweddariad:

Yn seiliedig ar gyfraddau canolrif fesul awr gosodwyd gwaelodlin gyda data ar gyfer 31.03.2012 fel y canlynol:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|--------------------|---------------|----------------|-------------------|---------------------------------------|-----------------------------------|
| Llawn Amser | £13.61 | £12.77 | £12.77 | Dim | £0.84 |
| Rhan Amser | £8.00 | £8.00 | £8.00 | Dim | Dim |
| Holl Staff | £12.77 | £8.72 | £9.91 | £1.19 | £4.05 |

Mae'r data ar gyfer 31.03.2016 wedi'i ddangos isod:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|--------------------|---------------|----------------|-------------------|---------------------------------------|-----------------------------------|
| Llawn Amser | £13.19 | £14.90 | £13.19 | Dim | Dim |
| Rhan Amser | £7.88 | £8.26 | £8.04 | Dim | £0.22 |
| Holl Staff | £12.68 | £9.18 | £11.51 | £2.33 | £3.50 |

Wrth ystyried ffigurau'r Holl Staff, mae'r bwloch rhwng merched a'r holl staff wedi cynyddu i £2.33. Mae'r bwloch rhwng merched a dynion wedi cynyddu i £3.50, ond mae'n parhau i fod yn is na'r waelodlin.

Mae angen cymhwyso'r un cafeat ag o'r blaen, fel Awdurdod bach, gall newid bach yn nifer y staff ar wahanol lefelau effeithio ar y bwloch.

Amcan Pedwar: Lleihau anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol

Man Gweithredu: Bydd adrodd ar droseddau casineb ac aflonyddwch yn cynyddu a bydd camau yn cael eu cymryd i leihau'r digwyddiadau o droseddau casineb ac aflonyddwch

| Prosiect / Menter / Gweithred | Amserlen | Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|--|-----------------|--|-----------------------------------|------------------------------------|
| Gweithio mewn partneriaeth gydag Aelodau'r Rhwydwaith i godi ymwybyddiaeth | 2014/15 | Bydd codi ymwybyddiaeth yn cyfrannu at gynyddu'r adroddiadau | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |

Cynnydd / Diweddariad:

Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 8 - 15 Hydref 2015
Gwaith partneriaeth yn cael ei arwain gan Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau.

Cytunwyd ar nifer o ddatganiadau i'r wasg a deunyddiau creu cyhoeddusrwydd ar gyfer y gwahanol sefydliadau dan sylw a oedd yn cynnwys ymgyrch ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Cafodd rhaglen radio ei recordio'n ddwyieithog a'i darlledu gan orsafoedd radio lleol yn ystod yr wythnos ymwybyddiaeth o droseddau casineb. Roedd yn tynnu sylw at beth yw troseddau casineb, eu heffaith ar gymunedau a'r pwysigrwydd o roi gwybod amdanynt a delio â hwy.

Y tu hwnt i ffiniau'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ei hun, gweithiodd aelodau'r Rhwydwaith Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn agos gyda 'Victim Support' o'r Ganolfan Genedlaethol ar Droseddau Casineb yng Nghymru i sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth maen nhw ei angen.

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth i staff rheng flaen yn y sector gyhoeddus ar draws y rhanbarth yn ystod yr Hydref a threfnwyd sesiynau pellach i gydweithwyr o'r Trydydd Sector y Gwanwyn hwn.

Amcan Pump: Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cynrychiolaeth a Llais**

Man Gweithredu: Bydd cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau a wasanaethir

Man Gweithredu: Ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus ac unigolion sy'n cynrychioli pobl leol o bob grŵp wedi'i ddiogelu

| Prosiect / Menter / Gweithred | Amserlen | Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|--|----------------------|---|-------------------------------|--|
| Datblygu rhaglen wardeiniaid gwirfoddol yr Awdurdod ymhellach, gan alluogi pobl o bob cefndir ac o grwpiau nodweddion gwarchoddedig i fod yn rhan o waith yr Awdurdod. | Mawrth 2016 | Mae gwaith gwirfoddol yn ffordd dda i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gymryd rhan, heb ofni bod diffyg profiad neu gymwysterau yn rhwystr. | Pawb | Pennaeth Wardeniaid a Mynediad |
| Diweddariad / Cynnydd: Cafodd 20 o Wardeiniaid gwirfoddol eu recriwtio yn ystod tymor 2015/16 (8 merch a 12 dyn) a bu'r tymor yn un llwyddiannus iawn. | | | | |
| Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli ymhellach o fewn prosiect Yr Ysgwrn, o Gyfeillion Yr Ysgwrn, canllawiau gwirfoddolwyr a datblygu Fforwm Ieuenctid. | Ail ran o'r prosiect | Mae gwaith gwirfoddol yn ffordd dda i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gymryd rhan, heb ofni bod diffyg profiad neu gymwysterau yn rhwystr. | Pawb | Rheolwr Prosiect Yr Ysgwrn Swyddog Datblygu Cynulleidfa |
| Cynnydd / Diweddariad: Mae cyfleoedd gwirfoddoli newydd wedi eu datblygu ym meysydd glanhau a chatalogio creiriau, ac mae nifer o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol amrywiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Byddwn yn datblygu rolau, polisiau a phecynnau gwirfoddoli ynghyd â phecyn hyfforddiant ar gyfer yr Ysgwrn erbyn yr Hydref. Byddwn yn mynd ati recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr ar gyfer gweithio ar y safle yn ystod y misoedd nesaf yn barod ar gyfer ail agor yn y Gwanwyn 2017. | | | | |

| | | | | |
|---|-------------|--|------|--|
| Parhau i weithio'n agos â Chymdeithas Eryri a phartneriaid eraill i ddatblygu diwrnodau prosiectau gwirfoddolwyr penodol yn ystod y flwyddyn. | Mawrth 2016 | Mae gwaith gwirfoddol yn ffordd dda i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gymryd rhan, heb ofni bod diffyg profiad neu gymwysterau yn rhwstr. | Pawb | Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth Pennaeth Busnes |
|---|-------------|--|------|--|

Cynnydd / Diweddariad:

Plas Tan y Bwlch: Mae diwrnodau gwirfoddoli wedi'u trefnu ar y cyd â Chymdeithas Eryri sydd wedi helpu i glirio rhai rhannau o'r gerddi.

Rheoli Tir: Trefnwyd 50 o ddiwrnodau gwirfoddoli APCE yn ystod o flwyddyn gan Gymdeithas Eryri, a arweiniodd at 345 o ddiwrnodau gwirfoddoli gan unigolion yn cefnogi gwaith APCE i naill ai reoli rhywogaethau ymledol neu gynnal a chadw'r llwybrau.

| | | | | |
|---|--|---|------|---|
| Fforwm Cydraddoldeb Eryri i gyfrannu at yr adolygiad o Gynllun Rheolaeth y Parc | Adolygiad yn dechrau yn y Gwanwyn 2015 | Drwy brif ffrydio cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol yng ngwaith yr Awdurdod, bydd yn cael effaith gadarnhaol yn yr hirdymor ar strategaethau a pholisïau'r Awdurdod. | Pawb | Uwch Swyddog Polisi (Cynllun Rheolaeth) |
|---|--|---|------|---|

Cynnydd / Diweddariad:

Bydd Fforwm Eryri sydd newydd gael ei ffurfio yn rhoi ystyriaeth i ddrafft o'r Cynllun Rheolaeth yn yr hydref 2016, cyn cynnal ymgynghoriad ehangach gyda'r rhanddeiliaid gan gynnwys Fforwm Cydraddoldeb Eryri.

| | | | | |
|---|----------|---|------|---|
| Fforwm Cydraddoldeb Eryri i gyfrannu at yr adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri | Haf 2015 | Drwy brif ffrydio cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol yng ngwaith yr Awdurdod, bydd yn cael effaith gadarnhaol yn yr hirdymor ar strategaethau a pholisïau'r Awdurdod. | Pawb | Pennaeth Polisiâu a Chynlluniau Strategol |
|---|----------|---|------|---|

Cynnydd / Diweddariad:

Mae gwaith adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri wedi dechrau, ac fe ddisgwylir i'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig fod yn barod ar gyfer ymgynghoriad gyda Llywodraeth Cymru erbyn yr haf 2016.

Mae Cynllun Cynnwys Cymunedau mewn lle ar gyfer adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Mae'r cynllun yn disgrifio sut y byddem yn mynd ati i gynnwys rhanddeiliaid a sefydliadau partner, grwpiau cymuned lleol, grwpiau buddiant a grwpiau defnyddwyr wrth baratoi ac adolygu CDLI Eryri ar gyfer y Parc Cenedlaethol.

| | | | | |
|----------------------------------|-----------|---|------|------------------------------------|
| Datblygu Cynllun Mentora Aelodau | Medi 2015 | I gyflwyno gwaith yr Awdurdod i bobl sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli fel Aelodau, gyda'r gobaith o gael aelodaeth fwy amrywiol yn y dyfodol. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
|----------------------------------|-----------|---|------|------------------------------------|

Cynnydd / Diweddariad:

Datblygwyd cynllun 6 mis a phenodwyd 4 Aelod o'r Awdurdod i ymgymryd â rôl fel mentoriaid. Ymgwymerwyd â chyhoeddusrwydd dros yr Haf a gwahoddwyd ceisiadau ar gyfer y cynllun, ac o ganlyniad penodwyd 4 mentai ym mis Medi 2015.

Yn sgil y cynllun, roedd 2 unigolyn wedi ymgeisio i fod yn aelodau annibynnol drwy'r broses benodi a hwyluswyd gan Lywodraeth Cymru, ond yn affodus ni lwyddodd yr un o'r ddau i gael eu cynnwys ar y rhestr fer am gyfweiliad. Ar ddiwedd y cynllun, mae 2 unigolyn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â'r Awdurdod, drwy fod yn aelodau ar ddau o'n fforymau.

Amcan Chwech: Lleihau anghydraddoldebau mewn **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Man Gweithredu: Bydd mynediad at wybodaeth a chyfathrebu ynghyd â phrofiad y cwsmer yn gwella

Man Gweithredu: Bydd mynediad corfforol at wasanaethau, trafndiaeth, yr amgylchedd adeiledig a manau agored yn gwella

| Prosiect / Menter / Gweithred | Amserlen | Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|--|--|---|-------------------------------|---|
| Bydd y camau gweithredu a amlinellir yn y Strategaeth Hamdden ar gyfer darparu ystod eang o gyfleoedd sy'n hygyrch yn cael eu cwblhau. | Yn ystod oes y strategaeth (5 mlynedd) | Bydd mynediad i fannau agored ac ystod amrywiol o gyfleusterau hamdden yn cael ei wella. | Pawb | Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad |
| <u>Diweddariad / Cynnydd:</u> Mae'r gwaith hwn yn barhaus. Yn ystod 2015/16, datblygwyd 2 wedd arall ar hygyrchedd cylchdaith yr Wyddfa, sy'n golygu er nad yw'n gwbl hygyrch oherwydd y tir, bydd modd i fwy o bobl ddefnyddio'r llwybr. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cylchdaith hygyrch o amgylch Llyn Cynwch ger Dolgellau. At hynny, ymgwymerwyd â gwaith sylweddol i hybu hygyrchedd ar hen lwybr yr A5 ger Capel Curig. | | | | |
| Ymgysylltu ac ymgynghori â Fforymau Mynediad y Gogledd a'r De a grwpiau mynediad perthnasol o gyfnod datblygu unrhyw brosiectau llwybrau troed hygyrch. | Parhaus | Bydd hyn yn sicrhau y bydd materion hygyrchedd yn cael eu hystyried a'u hymgorffori o gyfnod cynnar yn y prosiect. | Anabledd | Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad Swyddog Mynediad |
| <u>Diweddariad / Cynnydd:</u> Y gwaith yma'n digwydd yn barhaus. | | | | |
| Diweddarau tudalennau gwefan Eryri i Bawb. Cynnwys gwybodaeth am etifeddiaeth y Prosiect Mosaic ar y wefan ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer staff perthnasol y Parc Cenedlaethol. | Mawrth 2016 | Gwybodaeth werthfawr ar gyfer pobl anabl neu blant ifanc mewn pramiau am gyfleusterau, llwybrau a chyfleoedd hamdden hygyrch yn Eryri. Bydd hyn yn galluogi pobl i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer eu hymweliad a chael y mwyaf o'r ardal. | Anabledd Hil Pawb | Swyddog Dehongli Swyddog Mynediad |

| | | | | |
|--|--|--|--|--|
| | | Bydd hyn yn annog pobl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig i ymweld ag Eryri | | |
|--|--|--|--|--|

Diweddariad / Cynnydd:

Mae'r gwaith hwn wedi'i ddal yn ôl gan y gwaith i ail-raddio'r llwybrau troed, ond mae bellach wedi'i raglennu ar gyfer 2016/17. Mae angen ymgymryd â gwaith sylweddol i ailwampio'r tudalennau, diweddaru'r wybodaeth a'i gwneud yn llawer iawn haws ei ddefnyddio a'i ddarganfod. Mae cynllun hefyd ar droed i gynhyrchu cyfres o glipiâu fidio i hyrwyddo'r llwybrau troed hygyrch.

| | | | | |
|--|-------------|--|------|--------------|
| Hyrwyddo amgylchedd hanesyddol y Parc i grwpiau cymuned lleol a'r cyhoedd ehangach drwy sgysiau, teithiau tywys ac ysgol ddydd Archeoleg PCE | Mawrth 2016 | Drwy godi ymwybyddiaeth o amgylchedd hanesyddol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol, anogir pobl nad ydynt am ymgymryd â gweithgareddau hamdden corfforol i fentro allan ac archwilio'r Parc Cenedlaethol, ac felly annog grwpiau eraill i fynd i gefn gwlad. | Pawb | Archeolegydd |
|--|-------------|--|------|--------------|

Cynnydd / Diweddariad:

Sgwrs gyhoeddus i Gymdeithas Hanesyddol Llanfairfechan (tua 40 o fynychwyr). Cyfraniad at fideo Cymdeithas Hanesyddol Penmaenmawr ar gynhanes ucheldir Penmaenmawr â'r nod ddwbl o annog ymweliadau a rhoi profiad o'r ardal i bobl sydd ddim yn gallu (neu bellach yn methu oherwydd oed neu waeledd iechyd) ymweld eu hunain. Bydd y fideo yn cael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2016 i'w ddangos yn amgueddfa Penmaenmawr ac ar-lein.

Castell Carndochan, Llanuwchllyn (castell tywysogion Gwynedd) - rhaglen allgymorth cyhoeddus APCE yn ystod cynllun cadwraeth a darganfyddiad cloddio (teithiau tywys yn ystod y dydd a gyda'r nos yn ogystal ag ymweliadau ysgol, tua 200 o fynychwyr).

Taith dywys dan arweiniad Archeolegydd i gylch cerrig Meini Hirion, ucheldir Penmaenmawr, fel rhan o raglen yr Awdurdod ar gyfer pobl ddall a gyda nam ar eu golwg (tua 20 o fynychwyr).

Mae'r deunyddiau dehongli (gwybodaeth mynediad, teithiau sain MP3 i'w llwytho i lawr, mapiau, disgrifiadau) ar gael drwy gynlluniau Ein Treftadaeth / Our Heritage a Thywysogion Gwynedd, drwy wefan Treftadaeth Eryri yn hyrwyddo ymweliadau cyhoeddus i ystod eang o safleoedd sy'n amrywio o ran mynediad hawdd / anodd, gan gynnwys teithiau cerdded.

Mae'r cynllun dehongli ar-safle gorffenedig ar gyfer Tomen y Mur wedi'i hyrwyddo i ymwelwyr mewn erthygl yng nghylchgrawn Cadw 'Etifeddiaeth Cymru / Heritage Wales', a gafodd ei hysgrifennu'n rhannol gan Archeolegydd yr Awdurdod, ynghylch y safle a'r Rhufeiniaid yng ngogledd orllewin Cymru.

| | | | | |
|---|---------|--|------|---------------------------------|
| CLG ffurfiol â Chyngor BS Conwy i barhau o ran rheoli'r Hawliau Tramwy. Parhau i ddatblygu dull partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd i reoli'r Hawliau Tramwy yn y Parc. | Parhaus | Bydd rheoli hawliau tramwy i sicrhau eu bod yn aros yn agored, yn ddiogel ac mewn cyflwr da, yn annog mwy o ddefnyddwyr o bob gallu i fwynhau manteision cerdded / beicio yng nghefn gwlad agored. | Pawb | Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad |
|---|---------|--|------|---------------------------------|

Diweddariad / Cynnydd:
Mae gwaith rheoli Hawliau Tramwy Conwy yn parhau ac wedi cael effaith sylweddol ar lawr gwlad. Gosodwyd neu atgyweiriwyd cyfanswm o 56 darn o ddodrefn yn ystod y flwyddyn ar hyd llwybrau Conwy.
Mae'r gwaith ar y llwybrau yn mynd rhagddo yng Ngwynedd; mae trafodaethau wedi dechrau i greu cytundeb drafft â'r bwriad o gael cytundeb erbyn 2016/17.

| | | | | |
|---|-------------|--|------|---|
| Sicrhau bod Cronfa Ddata Hawliau Tramwy Eryri yn cael ei datblygu a'i gweithredu ymhellach, a hyrwyddo ei hargaeledd i'r cyhoedd. | Mawrth 2016 | Bydd defnydd effeithiol o'r gronfa ddata yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol o ran cynnal hawliau tramwy, ac yn rhoi cyfle i'r cyhoedd roi gwybod am broblemau y maent yn dod ar eu traws yn gyflym ac yn rhwydd fel y gellir | Pawb | Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad Cydlynnydd GIS |
|---|-------------|--|------|---|

| | | | | |
|--|-------------|--|------|-------------------------------|
| | | cymryd camau yn gyflym i ddatrys pethau. | | |
| <u>Diweddariad / Cynnydd:</u> Mae gwaith parhaus i ddatblygu'r Gronfa Ddata ymhellach. Cafodd y system ei dangos yng nghyfarfodydd APCE yn ogystal â chyfarfodydd y Cynghorau Cymuned. Mwy o waith hyrwyddo i'w wneud yn ystod 2016/2017. | | | | |
| Mae'r Swyddogion Addysg, Wardeiniaid a swyddogion eraill yn ymweld ag ysgolion ac yn rhoi cyflwyniadau rhyngweithiol ar bob agwedd ar y Parc Cenedlaethol sy'n eu cyflwyno i'r ystafell ddosbarth yn yr awyr agored. | Parhaus | Codi ymwybyddiaeth a hysbysu plant, yn enwedig ar gyfer ysgolion mewn ardaloedd trefol ac amddifadedd economaidd nad ydynt yn gallu cael mynediad yn hawdd i gefn gwlad. | Oed | Swyddogion Addysg |
| <u>Cynnydd / Diweddariad:</u> Mae 20 ysgol a choleg wedi cael ymweliad safle a sgwrs / gweithgaredd gan y Swyddogion Addysg. Mae hyn yn gyfanswm o 1,004 o ddisgyblion, gyda 44.5% o'r disgyblion yn dod o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Daeth y rhan fwyaf o'r disgyblion hyn allan am ymweliad i Eryri yn dilyn yr ymweliad ysgol. | | | | |
| Diweddarau'r Strategaeth Gyfathrebu gan Sicrhau bod Fforwm Cydraddoldeb Eryri yn cyfrannu at y broses. | Mawrth 2016 | Mynediad at wybodaeth a chyfathrebu'n gwella. | Pawb | Pennaeth Addysg a Chyfathrebu |
| <u>Cynnydd / Diweddariad:</u> Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda staff ac aelodau APCE. Cyflwynwyd Strategaeth ddrafft i'r Gweithgor Aelodau a'i chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad pellach a'i hail-ddrafftio. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach gyda Fforwm Cydraddoldeb Eryri a phartneriaid strategol. Cyflwynwyd drafft terfynol i APCE a'i mabwysiadu ar 30 Medi. Mae'r Strategaeth yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol a bydd y canlyniadau'n cael eu monitro bob blwyddyn fel rhan o Amcanion Gwella'r Awdurdod. | | | | |

5. Hyfforddiant

Ym mis Mehefin 2015 cynhaliwyd Dosbarth Meistr ar Reoli Beichiogrwydd a Mamolaeth yn y Gweithle ym Mhrif Swyddfa Heddlu Gogledd Cymru, a ddaeth â swyddogion o wahanol sefydliadau'r sector cyhoeddus at ei gilydd yng Ngogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth o'n cyfrifoldebau cyfreithiol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Hwyluswyd y sesiwn gan fargyfreithiwr a ddangosodd sut y gall gweithredu dylsetsydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ein cynorthwyo i fodloni anghenion staff sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth yn well drwy adnabod a mynd i'r afael ag anffafiaeth, aflonyddwch ac erledigaeth.

Ym mis Chwefror 2016 daeth *Dementia Friends* i'r Awdurdod i roi sesiwn codi ymwybyddiaeth i'r grŵp lechyd a Lles mewnol. Roedd yn gallu rhoi syniad o sut mae dementia yn gallu effeithio ar unigolion ar wahanol gyfnodau o'r cyflwr, ac roedd yn gallu esbonio sut y gall yr Awdurdod fod yn fwy cyfeillgar tuag at ddementia.

6. Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae gan yr Awdurdod systemau sefydledig i asesu effaith unrhyw strategaethau diwygiedig, cynlluniau, gweithdrefnau, arferion neu unrhyw benderfyniadau mawr y mae'n eu gwneud. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 32 o sgriniadau effaith cydraddoldeb, ac o ganlyniad i hynny roedd angen i 3 fynd ymlaen i wneud asesiad effaith llawn.

Roedd y rhan fwyaf o'r sgriniadau effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd yn ymwneud â phenderfyniadau a wnaed fel rhan o Strategaeth y Gyllideb yr Awdurdod. Isod mae rhestr o bob un o'r sgriniadau asesu effaith a gynhaliwyd:

1. Cau Canolfan Groeso Dolgellau
2. Ffioedd am Gyngor Cyn Ymgeisio
3. Codi'r Targed Incwm ar gyfer Plas Tan y Bwlch
4. Rhentu Gofod Swyddfa yn y Pencadlys
5. Gwasanaethau Gwybodaeth – codi incwm o ffioedd hysbysebu
6. Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth - ailstrwythuro'r gwasanaeth
7. Polisi Cynllunio – ailstrwythuro'r gwasanaeth
8. Rhoi'r gorau i'r Siarter Amgylcheddol ac aelodaeth o Bartneriaeth Amgylcheddol Gwynedd
9. Polisi Cynllunio – cefnogi cais am ymddeoliad hyblyg
10. Meysydd Parcio - cynyddu lle ac adolygu'r polisi casglu incwm
11. Adolygu Caffael Cynnal a Chadw Eiddo
12. Cyfieithu – adolygu nifer y cyfieithwyr sy'n bresennol mewn cyfarfodydd byr
13. Personél - peidio ag adnewyddu'r achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl
14. Adolygu caffael yn y Gwasanaeth TG
15. Adolygu darpariaeth gwasanaeth o fewn y gwasanaeth Dylunio a Gwybodaeth

16. Lleihau gwariant cyfalaf ym Mhlas Tan y Bwlch
17. Adolygu rôl y Gofalwr yn y Pencadlys
18. Gwasanaeth Archeolegol - lleihau gwariant prosiect
19. Adeiladau Rhestredig – lleihau gwariant prosiect
20. Cronfa CAE – lleihau gwariant prosiect
21. Bioamrywiaeth / Coedlannau / Amaeth - lleihau gwariant prosiect
22. Mynediad – lleihau gwariant prosiect
23. Bwrlwm Eryri – dileu'r swydd wag o strwythur y sefydliad
24. Cynllun Ariannol Tymor Canolog
25. Oriau Agor Tymhorol yn y Canolfannau Croeso
26. Strategaeth Gyfathrebu 2015-18
27. Trwyddedau parcio ar gyfer Gweithwyr Tymhorol yn y Parc Cenedlaethol
28. Adolygu Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol
29. Adolygu'r Polisi Di-fwg

Isod mae manylion y 3 sgriniad asesu'r effaith ar gydraddoldeb sydd ar ôl, sydd wedi adnabod effaith negyddol ar un neu fwy o grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Roedd hyn wedi arwain at asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn.

1. Codi Ffioedd ar gyfer Gwasanaethau Addysg

Fel rhan o Strategaeth y Gyllideb, adolygwyd ffioedd addysg ffurfiol i ganfod a oes modd codi'r ffioedd heb gael effaith negyddol ar y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth addysg.

Gan fod y polisi arfaethedig ond yn effeithio ar blant a phobl ifanc ac roedd ganddo'r potensial i gael effaith negyddol uniongyrchol arnynt, ymgwymerwyd ag asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn.

Ymchwiliwyd i'r ffioedd sy'n cael eu codi gan sefydliadau tebyg sy'n cynnig cyrsiau addysg, a darganfuwyd bod y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn rhesymol ac y gellid ei oddef heb effeithio ar nifer y bobl sy'n gallu mynychu'r cyrsiau. At hynny, mabwysiadwyd mesurau lliniaru i leihau'r effaith, gan gynnwys parhau i gynnig gwasanaethau yn rhad ac am ddim i ysgolion yn y Parc Cenedlaethol a chynnig grantiau i roi cymhorthdal ar gyfer costau teithio'r ysgolion.

2. Adolygu Cefnogaeth Staff Gweinyddol a Thechnegol

Fel rhan o'r mesurau effeithlonrwydd a fabwysiadwyd yn Strategaeth y Gyllideb yr Awdurdod, cynhaliwyd adolygiad o'r gefnogaeth staff gweinyddol a thechnegol sydd ei angen ar yr Awdurdod. O ganlyniad i hynny crëwyd pwll diswyddo.

Roedd y pwll yn cynnwys 19 o bobl, ac o'r rheiny roedd:

16 yn fenywaidd

3 yn wrywaidd

7 mewn swyddi llawn amser a 12 mewn swyddi rhan amser

Benywod oedd ym mhob un o'r swyddi rhan amser

O fewn y pwll, roedd 9 o'r staff yn fenywod a dros 50 oed.

Am fod y pwll diswyddo'n effeithio yn anghyfartal ar fenywod dros 50, cynhaliwyd asesiad o'r effaith llawn.

Am fod yn rhaid i'r Awdurdod ddod o hyd i doriadau ariannol o £420,000 yn 2015/16, nid oedd dewis dichonol arall ond parhau â'r broses. Pennwyd mesurau lliniaru a'u rhoi ar waith, gan gynnwys rhewi'r holl swyddi gweinyddol a thechnegol gwag fel y gellid cynnig swyddi eraill i'r rhai a gafodd eu dewis ar gyfer eu diswyddo, yn ogystal â chynnig ceisiadau am ymddeoliad cynnar a diswyddo gwirfoddol.

3. Adolygu ac Ailstrwythuro Gwasanaeth Stadau'r Awdurdod

Mewn sefyllfa debyg i'r uchod, roedd Strategaeth y Gyllideb yr Awdurdod yn cynnwys adolygu ac ailstrwythuro'r Gwasanaeth Stadau i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd ariannol tuag at y toriadau o £420,000.

Ymgwymerwyd ag adolygiad a chyflwynwyd strwythur newydd arfaethedig. Yn sgil hynny, crëwyd pwll diswyddo i alluogi dileu 1 swydd llawn amser o'r strwythur. Gan fod y pwll yn cynnwys gwrywod i gyd, ymgwymerwyd ag asesiad o'r effaith llawn.

Gofynnodd yr Awdurdod am geisiadau o'r pwll i ddiswyddo'n wirfoddol neu ymddeol yn gynnar. Cafwyd un datganiad o ddiddordeb o'r pwll hwn i ddiswyddo'n wirfoddol a chymeradwywyd y cais hwnnw.

6. Gwybodaeth Cyflogaeth

Mae'r ddyletswydd yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol am gyflogaeth:

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y:

- Bobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir
- Gwrywod a benywod a gyflogir, yn ôl:
 - Swydd
 - Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
 - Tâl
 - Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
 - Patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)
- Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a fu'n llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais
- Gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant

- Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi
- Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu
- Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth uchod ar gyfer pob un o'r grwpiau unigol a ddiogelir. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data am swyddi, graddfa, tâl, math o gontract a phatrwm gwaith - dim ond ei ddadansoddi mewn perthynas â benywod a gwrywod yn unig sydd ei angen bryd hynny.

Pobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir

Cyfanswm y gweithwyr ar 31 Mawrth 2016 = 141

Proffil oedran

| | |
|-------------------|----|
| 24 ac oddi tanodd | 4 |
| 25 – 34 | 20 |
| 35 – 44 | 36 |
| 45 – 54 | 42 |
| 55 – 64 | 36 |
| 65 a throsodd | 3 |

Dosbarthiad Benywod / Gwrywod

| | |
|---------|----|
| Benywod | 65 |
| Gwrywod | 76 |

Mae 1% o'r staff wedi datgan eu bod yn anabl o dan delerau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Roedd 2 aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth.

O fewn yr Awdurdod, mae'r staff sydd wedi datgan eu tarddiad ethnig yn disgyn o fewn y categori Gwyn Cymreig, ac nid oes unrhyw un ohonynt o'r prif grwpiau ethnig eraill (Cymysg, Asiaidd, Du neu Dsieineaidd).

Yn sgil y nifer isel o weithwyr, ni chyhoeddir yr wybodaeth yn fanylach er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolion.

Y gwrywod a'r benywod a gyflogir, yn ôl:

- Swydd
- Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
- Tâl
- Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
- Patrwm gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)

Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad gwrywod a benywod a gyflogir yn ôl graddfa, patrwm gwaith a'r math o gontract (mae gan yr Awdurdod nifer o deitlau swydd gwahanol o fewn y graddfeydd):

| | | Patrwm Gwaith | | | | | | Math o Gontract | | | | | |
|--------------------------------------|-------------|---------------|----|------------|---|--------|---|-----------------|----|----------|---|---------------|---|
| | | Amser llawn | | Rhan amser | | Hyblyg | | Parhaol | | Dros Dro | | Tymor Penodol | |
| Graddfa | Tâl/ Awr | B | G | B | G | B | G | B | G | B | G | B | G |
| 2 | £7.88 | | | 12 | 5 | | | 9 | 2 | 3 | 3 | | |
| 3 | £8.26 | | 1 | 7 | 5 | | | 5 | 4 | 2 | 2 | | |
| 4 | £9.00 | 2 | 10 | 9 | 2 | | | 10 | 11 | 1 | 1 | | |
| 5 | £10.23 | 2 | 4 | 3 | | | 2 | 4 | 6 | | | 1 | |
| 6 | £11.51 | 1 | 8 | | | | | 1 | 8 | | | | |
| 7 | £13.18 | 7 | 13 | | | 1 | | 6 | 13 | 1 | | 1 | |
| 8 | £14.90 | 8 | 7 | | | 1 | 1 | 8 | 7 | | 1 | 1 | |
| 9 | £16.05 | 3 | 5 | | 1 | 1 | 1 | 4 | 6 | | | | |
| 10 | £16.99 | 1 | 3 | | | 1 | | 2 | 3 | | | | |
| 11 | £18.01 | 2 | 1 | 1 | | | | 3 | 1 | | | | |
| 12 | £18.95 | 1 | 2 | | | 1 | | 2 | 2 | | | | |
| 13 | £19.90 | 1 | 3 | | | | | 1 | 3 | | | | |
| Prif Swyddog - Cyfarwyddwr | £30.14 | | 2 | | | | | | 2 | | | | |
| Prif Swyddog - Prif Weithredwr | £39.95 | | 1 | | | | | | 1 | | | | |

Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Roedd 39 o ymgeiswyr wedi llenwi ffurflenni monitro.

Tarddiad Ethnig

- 39 Gwyn
- 0 Cymysg
- 0 Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd
- 0 Du, Du Prydeinig, Du Saesneg, Du Albanaidd, Du Cymreig
- 0 Tsieineaidd, Tsieineaidd Prydeinig, Tsieineaidd Saesneg, Tsieineaidd Albanaidd, Tsieineaidd Cymreig neu Grŵp Ethnig Arall

Cenedl

- 16 Gwryw
- 18 Benyw

Anabledd

0 ymgeiswyr ag anabledd yr hoffent roi gwybod amdano

Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a oedd yn llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu

| | Ceisiadau | Penodiadau |
|----------|-----------|------------|
| Gwryw | 3 | 1 |
| Benyw | 5 | 2 |
| Cyfanswm | 8 | 3 |

Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais

Gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant

Roedd ceisiadau a hyfforddiant a fynychwyd ar 67 achlysur gan fenywod a 78 gwaith gan wrywod (roedd rhai aelodau o staff wedi ymgeisio a bod yn bresennol ar fwy nag un achlysur.)

Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gwyn yn ei erbyn ef / hi

Roedd 2 cwyn yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â 2 wryw.

Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu

Roedd 1 gweithiwr (gwryw) yn destun gweithdrefnau disgyblu

Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

| | |
|----------|----|
| Benyw | 5 |
| Gwryw | 7 |
| Cyfanswm | 12 |